| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **18 Ebrill 2016** |
| **TEITL :** | **Cofrestr Buddiannau Aelodau** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae'n ofynnol bellach i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electroneg. Cyflwynir diweddariad ar y broses yr adroddiad hwn.

2. Mae'n rhaid i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais hysbysu'r Swyddog Monitro o'u buddiannau o dan y Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i'r Swyddog monitro gadw cofrestr o'r buddiannau hyn.

3. Mae'r gofrestr felly yn cynnwys y datganiadau 'ymlaen llaw' a wneir gan aelodau pan fyddant yn cymryd eu swyddi (mae'n rhaid iddynt hefyd gadw'r cofrestriad yma'n gyfredol). Mae hefyd yn cynnwys hysbysiadau o'r buddiannau mae aelodau yn eu datgan mewn cyfarfodydd.

4. Mae'r gofrestr yn cael ei chadw ar ffurf bapur ac ar gael i unrhyw un sy'n dymuno dod i mewn i'w gweld. Mae'n ofynnol bellach i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electroneg, ac felly bydd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Y bwriad yw gwneud hyn drwy'r system 'Modern Gov' a ddefnyddir gan y Cyngor. Bydd yn golygu y gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan. Bydd y datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd i'w gweld yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw a bydd modd gweld y rhain hefyd drwy dudalen bersonol yr aelod.

5. Rydym eisoes wedi hysbysu aelodau'r Cyngor o'r datblygiad yma ac wedi gofyn iddynt gadarnhau os yw eu ffurflenni cofrestru 'ymlaen llaw' yn gyfredol ac yn gywir. Yn y cyfamser mae gwaith yn mynd rhagddo ar y system Modern Gov i alluogi i'r manylion hyn gael eu mewnbynnu.

**Argymhelliad**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.